

# With Lawrence in Arabia

by

Lowell Thomas

INTRODUCTION BY  
PHILLIP KNIGHTLEY



Wyneb-ddalen With Lawrence in Arabia gan  
Lowell Thomas

Yn Erddig hefyd fe gredodd Ann i wario puntan ar *On Some of Shakespeare's Female Characters* (1893) gan Helena Faucit, Lady Martin (1817-1898). Clamp o gyfrol yw ar ffurf cyfres o lythyrau: chwech ohonynt at gyfeillesau, ac un bob un at Robert Browning, John Ruskin ac Alfred Tennyson. Ynddynt mae'n trafod y rhannau hynny a chwaraeasai'r awdurens yn ystod ei gyrrfa fel actores bur enwog yn ei dydd, yn Llundain, yn Nulyn ac ym Mharis. Dengys ei hun yn wraig ddeallus a diwylliedig. Yr oedd ei henw'n taro tant, ond yr hyn a dynnodd fy sylw oedd y cyfeiriad ar ben ambell lythyr: 'Bryntysilio, near Llangollen'. Dyma droi at yr hen ffefryn dibynadwy, *The Gossiping Guide to Wales*, ac yn y sylwadau ar Lantysilio cael y nodyn *The house above the 'Horse Shoe' is Bryn Tysilio, the Welsh residence of the late Sir Theodore Martin, the well-known author, and his distinguished wife (Helen Faucit).* A phwy oedd yr awdur enwog? Ysgrifennai gerddi digrif dan y ffugenw Bon Gaultier, a hyd y gwelaf ei unig hawl i enwogrwydd fu iddo gydweithio â bardd o'r enw William Aytoun ar y Bon Gaultier Ballads (1845) casgliad o barodïau o gerddi cyfoes. Tybed pa beth a barodd iddynt ymgartrefu yn Lantysilio? A fu iddynt chwarae unrhyw ran ym mywyd diwylliannol yr ardal? Bu hi farw yn 1898 ac yntau yn 1909: och a gwaes, aeth enw'r naill a'r Hall i ebargofiant llwyr.

Yr oedd pentwr o gyfrolau o *Friendship*

Book Frances Gay ar werth am ryw gymyn yn Erddig. Llyfr yw na fyddaf yn cyboli edrych ynddo fel arfer, ond dyma fi'n agor cyfrol 1986 ar antur ac ar gyfer Ebrill 23 wele'r hanesyn hwn:

*Elizabeth and her husband William (Gaskell) had been married a dozen years when they went on holiday to the little Welsh village of Ffestiniog. Here their ten-year-old son Willie contracted scarlet fever from which he died. The death of her only son left his mother shattered. She didn't know what to do with herself – until her husband advised her to write down her feelings and experiences, and get it out of her system that way. As she wrote, the pain began to diminish, and in 1848 was published her book Mary Barton, a story about the lives of cotton workers in Manchester. This was the first of several successful novels written by Mrs Elizabeth Gaskell, who is perhaps best known for her second work, Cranford.*

Yn ddiweddar gwelwyd cyfres deledu seiliedig ar ei nofel North and South. Bu hi a'i gŵr yn ymwelwyr cyson ag ardal Ffestiniog a'r Port, fe ymddengys.

Un o fendithion bod yn un o ddau Lywydd Anrhydeddus Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw cael byw fel gŵr bonheddig pan gynhelir cynhadledd mewn plasty megis Gregynog, lle buom ddiwedd mis Mehefin. Ar ôl noson a diwrnod diddan, cyn canu'n iach, cwta hanner awr a gawsom gyda David Vickers, y Cymro rhadlon sy'n bennaeth y Wasg. Tynnodd ein sylw at *Gwasg Gregynog: A Descriptive Catalogue (1970-1990)* a gyhoeddwyd yn 1990. Sut na wyddwn am hwn o'r blaen? Mae'n llawer mwy na rhestr foel: llyfr sylwedol 74 tudalen yw, gyda nodiadau ar bob testun, ac atgynhyrchir sawl engrafiad a choloffon cain. Gellir ei gael mewn rhwymiad arbennig am ganpunt, ond fe'i ceir hefyd mewn clawr cerdyn am £25 - bargen os bu un erioed. Bychan iawn yw fy nghasgliad o gynnyrch Gregynog, ond caf borï yn hwn i'm cysuro. O 750 o gopïau clawr cerdyn, rhif 631 yw fun i, felly rhuthrwyd! Fe allech fod yn lwcus! Cefais hefyd lyfrynn dwyieithog *Three Essays: Tair Ysgrif*, gan Dorothy Harrop, Glyn Tegai Hughes a David Vickers, ar hanes y Wasg. A chyda llaw, a wyddech chi y cewch fel arfer brynu set o ddalennau unrhyw lyfr sydd mewn print gan ei gyhoeddwyd - hyd yn oed gan Wasg Gregynog - er mwyn eu rhwymo, neu gael eu rhwymo, yn ôl eich dyluniad eich hun? (Cofiwch, ni fydd yr ail ddewis yn un rhad.)

Bruce Griffith

## AR WERTH

Y Llenor (1924+), Barn, Y Gwyddonydd, Cynefin, Yr Arloeswr Newydd, Nofelau.

Cysyllter â D. Aneurin Thomas, Bryn Teg, Ffordd Telford, Porthaethwy, Môn, LL59 5DT (*milltir a hanner o faes yr Eisteddfod*) neu ar (01248) 715915

[garmon@netbreeze.co.uk](mailto:garmon@netbreeze.co.uk)

Llofnodion Delwyn Siôn, Dewi Pws, Cleif Harpwood, Charlie Britton a Hefin Elis, Beiro glas ar bapur gwyn, Llanelwedd 1975. £5

Dau gardyn post yn dangos difrod drycin 28.10.1927 ar Bromenâd Aberystwyth: lluniau A. J. Lewis, Mart, Aberystwyth. £5 y ddau

Taflen Penillion Coffadwriaethol am Elizabeth, merch Hugh ac Ellen Davies, Tyn-y-Pistyll, Llangerniew (sic), a fu farw 28.6.1898 yn 30 oed. Y penillion gan Maenan, Colwyn, a'r argraffu gan Swyddfa'r "Rhedegydd", Llanrwst. £5.

Y recordiau canlynol yn rhad ac am ddim i'r neb a'u caro. Angen eu glanhau, a rhai â darnau mân yn eisiau o'r ymylon, ond eto o ddiddordeb i gasglwyr.

Snowflakes Cardiff Choir: Cenwch Gerddi Cymru Part 1 / Part 2. Decca. Pontypool Silver Band: Wales Part 1 / Part 2. Winner.

The Morriston Orpheus Choir: Diniweidrwyd / Domine Non Sum Dignum. Columbia.

Miss Mair Jones: Yr Eos / Y Gardotes Fach. Parlophone.

Côr Adrodd Min Rhythallt: (?Eisteddfod Genedlaethol) Llangefn 1957. Stagesound.

Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru, Aberdâr 1956: Byddugwyr (sic) y prif gystadleuthau corawl ac unigol ynghyd a (sic) detholion o'r Seremoniâu. Stagesound.

"The Heart and Voice of Wales" – amryw gyfranwyr g.g. Ann Griffiths, Brychan Powell, Rhydderch Jones, Ryan Davies, corau Godre'r Aran a'r Rhos, Caradog Pritchard ac yn y blaen. Delyseé.

Cludiant yn ychwanegol.

Cysyllter â

**H. HUWS**

ar 01248 351503 neu

[garmon@cymrurydd.com](mailto:garmon@cymrurydd.com)

## YN EISIAU

Copi o'r nofel i blant 'Perygl Jones a'r J.J.4 (cyhoeddwyd gan yr Urdd yn ystod y 70au cynnar). Cysylltwch ag Andras drwy go.action@lycos.com neu ar 01170029051.